Tasg 3

# Wedi eu gwneud o ...

1. Sylwch ar y patrymau mewn print bras a'r rhagenw sydd wedi ei danlinellu.

> Roedden nhw'n byw mewn "hogans" – cartrefi **wedi <u>eu</u> gwneud o** ffrâm o bren gyda waliau **wedi <u>eu</u> gwneud o** glai.

Pam mai **wedi <u>eu</u> gwneud o** sy'n gywir yn y frawddeg hon – nid **wedi ei wneud o** neu **wedi ei gwneud o?**

2. Darllenwch y brawddegau hyn.

Dw i'n gwisgo crys **wedi <u>ei</u> wneud o** gotwm.

Dw i'n gwisgo siaced **wedi <u>ei</u> gwneud o** ddenim.

Pam mae **wedi <u>ei</u> wneud o** yn cael ei ddefnyddio mewn perthynas â'r gair **crys**?
Pam mae **wedi <u>ei</u> gwneud o** yn cael ei ddefnyddio mewn perthynas â'r gair **siaced**?

3. Ysgrifennwch un o'r canlynol ym mhob bwlch yn y brawddegau ar y dudalen nesaf:

wedi ei wneud o | wedi ei gwneud o | wedi eu gwneud o

| | | |
|---|---|---|
| a. | Mae'r bwrdd | o bren. |
| b. | Mae'r gadair | o bren. |
| c. | Mae'r dodrefn | o bren. |
| ch. | Mae'r dillad | o ddenim. |
| d. | Mae'r ffrog | o ddenim. |
| dd. | Mae'r siaced | o ddenim. |
| e. | Mae'r crys | o gotwm. |
| f. | Mae'r gacen | o siwgr, menyn, blawd ac wyau. |
| ff. | Mae'r bisgedi | o siwgr, menyn a blawd. |
| g. | Mae'r bara | o flawd, burum, halen a dŵr. |

4. Meddyliwch am 5 brawddeg arall sy'n defnyddio'r patrymau hyn.